Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

# POLISI CYFFURIAU A SYLWEDDAU ANGHYFREITHLON

(Adlewyrcha'r polisi hwn Erthygl 33 CCUHP-yr hawl i gael eich diogelu rhag cyffuriau peryglus)

## Amcan y Polisi

Prif amcan y polisi yw diffinio safle cytunedig yr ysgol ar faterion sy'n ymwneud á chyffuriau.

## Datganiad Polisi

Yn yr ysgol hon, ein nod yw annog a chynorthwyo pob disgybl i gyrraedd ei lawn potensial. Credwn fod plant sy'n iach, ac yn gallu rheoli eu bywydau mewn modd cadarnhaol, yn fwy tebygol o ddysgu a chyflawni. Ag eithrio rhesymau meddygol, ni ddylai disgyblion fod á chyffuriau yn eu meddiant tra'n mynychu'r ysgol neu yn mwynhau profiadau addysgiadol á drefnir gan yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn ystyried unrhyw achos o gamdrin alcohol neu gyffuriau, neu gyflenwi alcohol neu gyffuriau, mewn modd difrifol iawn.

Dylai unrhyw ddisgybl sydd yn gorfod cymryd cyffuriau meddygol yn ystod oriau ysgol, ddangos nodyn ysgrifenedig gan riant neu ofalydd, sy'n egluro'r rhesymau dros gymryd y cyffur, a 'r dogn angenrheidiol.

Bydd yr ysgol yn datgan disgwyliadau pendant ynglŷn á bod yn iach a chyflawni ymhob agwedd o'u bywydau.

Bydd y staff ac asiantaethau allanol yn hybu gwybodaeth am gyffuriau drwy raglenni addysgiadol ac hefyd cyfleoedd eraill pan y gellir trafod y mater a chyflenwi gwybodaeth glir fydd yn cynorthwyo disgyblion i ddeall yn well effeithiau a goblygiadau camdrin cyffuriau.

Bydd yr ysgol, drwy ddarparu addysg gyffuriau, yn galluogi'r disgyblion i wneud dewisiadau deallus ynglŷn á materion sy'n effeithio ar eu hiechyd, gan gynnwys defnydd a chamddefnydd alcohol a chyffuriau.

## Fframwaith Moesol a Gwerthoedd

Bydd yr ysgol yn hybu y gwerthoedd hynny sy'n sylfaen i ddatblygiad personol a chymdeithas iach. Mae'r gwerthoedd yma, a gytunwyd gan yr ysgol, yn cynnwys parch, goddefgarwch, gofal, cyfiawnder, gobaith a chyfrifoldeb.

## Diffinio Cyffur

Ddiffinnir cyffur fel unrhyw sylwedd sydd, o'i gyflwyno i'r corff, yn creu newid mewn amgyffred a/neu tymer a/neu weithrediad corff y defnyddiwr.

**Rhestr Cyffuriau**
Mae'r ysgol yn ystyried fod cyffuriau yn cynnwys sylweddau canlynol.  Nid yw'r rhestr hon yn un derfynol, ond fe'i cynhwysir er mwyn rhoi arweiniad.

- Alcohol
- Amffetaminiau
- Amyl a Butyl Nitrate
- Steroids Anobolig
- Barbitwradau
- Benzodiazepinau
- Caffeine
- Canabis
- cocaine
- Ecstasi
- Fêp yn cynnwys hylif Canabis
- Madarch Rhithweledol
- LSD
- Cysgbeiriau (piates)
- Meddyginiaeth o Fferyllfa
- Toddyddion
- Tobaca (Nicotine)

**Addysg Gyffuriau**
Bydd addysg gyffuriau yn ein hysgol yn:

- Annog disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth am gyffuriau, a defnydd addas o gyffuriau
- Chwalu mythau
- Cyflenwi gwybodaeth gywir
- Cadarnhau gwerthoedd ac agweddau

Ein hamcanion yw:

- Annog hunan-barch
- Galluogi unigolion i wneud dewisiadau yn seiliedig ar wybodaeth
- Rhoi cymorth i ddisgyblion i reoli eu datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol
- Datblygu sgiliau personol a chymdeithasol
- Archwilio strategaethau ar gyfer ffordd o fyw iachus

Bydd elfen draws-gwricwlaidd i addysg gyffuriau, yn ogystal á rhaglen benodol o fewn i'r cyrsiau addysg bersonol a chymdeithasol a iechyd a ddarperir gan yr ysgol.

Fe gydlynir yr addysg gyffuriau gan aelod o'r TARh sy'n cysgodi MDaPh Iechyd a Lles.

Trefnir sesiynau gan bobl proffesiynol megis PC Robert George.

**<u>Rheoli Materion yn ymwneud á Chyffuriau</u>**

**Lles**
Fe reolir lles ac iechyd disgyblion sydd wedi cymryd (neu y tybir iddynt gymryd) cyffuriau, o fewn i'r drefn sy'n boboli ar gyfer disgyblion sy'n dioddef salwch. Fe ddisgwylri i'r staff ofalu am les corfforol, cymdeithasol ac emosiynol pob disgybl.

**Gwybodaeth**
Efallai na fydd rhai disgyblion sy'n ymwneud á chyffuriau yn gwybod llawer am gyffuriau a'u heffeithiau. Un o brif amcanion addysg cyffuriau yw dewis deallus. Felly, os yw disgybl mewn peryg oherwydd diffyg gwybodaeth, bydd yr ysgol yn ymdrechu i roi'r wybodaeth gywir iddo/iddi.

**Disgyblaeth**
Rhaid hysbysu'r Pennaeth am unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud á chyffuriau.

Fe estynnir cefnogaeth fugeiliol i unrhyw ddisgybl sydd wedi camdrin cyffuriau.

Mewn achosion o gamdrin neu gyflewni cyffuriau ar dir yr ysgol, bydd yr ysgol yn gweithredu yn dilyn trafodaeth gyda'r staff ac ymchwiliad addas. Fe hysbysebir Cadeirydd y Llywodraethwyr.

Os bydd **tystiolaeth bendant fod disgybl, tra ar dir yr ysgol,** wedi bod â chyffuriau yn ei feddiant a/neu eu cymryd, dylid dilyn y camau canlynol:

1. Gwahardd y disgybl am gyfnod penodol
2. Cyfweld á'r rhiant/rhieni
3. Cysylltu ag asiantaethau allanol er lles y disgybl
4. Ffurfio cynllun gweithredu cytunedig rhwng yr ysgol/y disgybl/y rhieni a'r asiantaeth

Os bydd disgybl yn rhoi gwybod yn wirfoddol ei fod wedi camddefnyddio cyffuriau, a'i fod dan 16 oed, rhaid hysbysu'r rhieni.

Os bydd **tystiolaeth bendant fod disgybl yn gwerthu/cyflewni cyffuriau ar dir yr ysgol,** bydd yr ysgol yn ystyried dilyn y camau canlynol:

1. Gwaharddiad parhaol
2. Cyfweld â'r rhiant/rhieni
3. Cysylltu ag asiantaethau eraill
4. Ystyried cysylltu a'r Heddlu

**Datblygiad Staff**
Bydd yn yr ysgol adnoddau at ddefnydd y staff fydd yn rhoi gywbodath am gyffuriau a materion ym ymwneud á chyffuriau.

Drwy sesiynau hyfforddiant mewn swydd anelir at rannu gwybodaeth sylfaenol am gyffuriau a materion yn ymwneud á chyffuriau ag athrawon.

**Cyfrifoldeb**
Mae'n ofynnol i holl aelodau'r staff weithredu'r polisi.

## ATODIAD 1

## YR HEDDLU

Nid oes gorfodaeth gyfreithiol ar i'r ysgol neu unigolion hysbysu'r Heddlu am achosion o gymryd neu werthu cyffuriau anghyfreithlon.

Er hynny, yn ól Misuse of Drugs Act 1971, mae'n drosedd 'i ddeiliad neu reolwr adeilad, ganiatau neu ddioddef ysmygu, cyflenwi, ceisio cyflenwi neu gynnig cyflenwi cyffuriau rheoledig yn yr adeiliad'.

Mae'n hanfodol fod yr ysgol yn cefnogi cyfraith a threfn, ac yn cydweithredu á'r Heddlu pan fo angen.

Fe argymhellir y dylid cysylltu á'r Heddlu pan fo tysytiolaeth gref fod cyffuriau yn cael eu gwerthu.

## ATODIAD 2

## IECHYD A DIOGELWCH

Dylid cymryd gofal arbennig wrth ymdrin á sylwedd a allai fod yn gyffur. Dylid gwisgo menyg y gellir eu taflu os yn bosibl. Os nad oes menyg ar gael, dylid golchi dwylo ar ól cyffwrdd á'r sylwedd.

Dylid ymdrin á nodwyddau yn ofalus er mwyn osgoi anafiadau nodwydd. Dylid cadw blwch pwrpasol ar gyfer gwaredu nodwyddau yn yr ysgol.

Mewn achos o anaf a achoswyd gan nodwydd, dylid sicrhau sylw meddygol ar unwaith.

**Atafael:**
Os bydd aelod o'r staff yn atafaelu sylwedd, y credir iddo fod yn gyffur, dylid sicrhau fod tyst (oedolyn arall) ar gael i gadarnhau fod y sylwedd wedi ei gadw mewn man diogel. Dylid cofnodi ac ail-arwyddo'r wybodaeth yma. Dylid cadw'r sylwedd mewn man

diogel hyd nes fod penderfyniad wedi ei wneud ynglŷn á dull gweithredu addas.  Os bydd angen mynd á phlentyn i'r ysbyty, dylid gyrru gweddillion unrhyw sylwedd a gymerwyd ar ffurf tabledi i'r ysbyty dan ofal athro neu'r gyrrwr ambiwlans.

## ATODIAD 3

**Sylweddau y tybir eu bod yn angyfreithlon**

Os penderfynir galw'r Heddlu, dylid rhoi'r sylwedd i'r Heddwas, gan sicrhau fod y swyddog sy'n ei dderbyn yn arwyddo'r cofnod.  Os na elwir yr Heddlu, dylid mynd á'r sylwedd i Orsaf yr heddlu ar gyfer ei waredu.  Eto, dylid sicrhau fod Heddwas yn arwyddo amdano. Mae rhai asiantaethau arbennigol yn barod i dderbyn a gwaredu sylweddau.  Eto dylid sicrhau fod yr asiantaeth yn arwyddo amdano.

**Sylweddau y tybir eu bod yn gyfreithlon**

Os bydd tystiolaeth fod hawl gyfreithiol gan ddisgybl i fod á sylwedd a atafaelwyd yn ei feddiant, dylid ystyried y canlynol:

A yw'r disgybl yn berchen ar y sylwedd?
A yw'r sylwedd yn feddygyniaeth sydd ei hangen ar y disgybl?
A oes tystiolaeth o gamdrin y sylwedd?

Wedi ystyried yr uchod, efallai y byddai'n ddoeth dychwelyd y sylwedd i'r rhieni/gwarcheidwad yn hytrach nag i'r disgybl.

*(Adolygwyd: Gorffennaf 2026)*